# Astudiaeth achos
# Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Sefydlwyd Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern (YGBE) ym mis Medi 2012, yn ardal Pen-y-lan yng Nghaerdydd gyda 71 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 7. Erbyn hyn, mae gan yr ysgol 378 o ddysgwyr dros flynyddoedd 7, 8, 9 a 10. Mae tua 90 y cant o ddysgwyr yr ysgol yn dod o gartrefi di-gymraeg ac mae 12 y cant sy'n gymwys am ginio ysgol am ddim.**

Mae Ffion Furci, Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol, wedi arwain ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) ers iddo gael ei gyflwyno.

Erbyn hyn mae gan yr ysgol Gydlynydd Llythrennedd a Chydlynydd Rhifedd sy'n gweithio ar y cyd â Ffion. Mae'r cydlynwyr yn cynnal gweithdai cyson yn ystod y flwyddyn academaidd er mwyn i adrannau gael cyfle i drafod agweddau ar y fframwaith, rhannu arfer dda, datblygu tasgau ac adnoddau a dysgu mwy am sut i ddatblygu sgiliau dysgwyr ymhellach. Prif her cydlynwyr y FfLlRh yw sicrhau cysondeb ar draws pynciau, yn enwedig wrth i staff newydd ymuno â'r ysgol. Mae'r cydlynwyr yn cwrdd yn gyson ag athrawon, gan gynnwys athrawon newydd, i gynnig cefnogaeth a hyfforddiant mewn perthynas â gweithredu'r fframwaith. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod athrawon yn hyderus i ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn eu gwaith cynllunio a datblygu'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm.

Mae'r fframwaith wedi newid dulliau gweithio'r ysgol yn llwyr, yn enwedig yn y pynciau lle efallai nad oedd llythrennedd a rhifedd yn codi mor naturiol. Yn dilyn hyfforddiant, mae athrawon y pynciau hyn yn fwy hyderus wrth ddatblygu elfennau llythrennedd a rhifedd, ac mae'r dysgwyr yn gweld bod y fframwaith yn cael ei ddefnyddio ym mhob pwnc ac maen nhw'n gallu gwneud cysylltiad rhwng y sgiliau hyn a gweld eu pwysigrwydd ar draws y cwricwlwm. Mae'r holl athrawon yn fwy hyderus i arwain ar dasgau llythrennedd a rhifedd yn yr ystafell ddosbarth ac i'w cynnwys yn eu cynlluniau gwaith.

Mae'r ysgol hefyd wedi canolbwyntio ar ddod â'r rhieni yn rhan o bethau. Mae'r rhieni wedi chwarae rhan fawr yn y broses o gefnogi'r ysgol drwy'r gwaith o ddatblygu'r FfLlRh. Mae'n cynnig hyfforddiant i rieni, ac oherwydd yr hyfforddiant hynny mae'r rhieni wedi dod yn fwy hyderus i gefnogi eu plant gyda llythrennedd a rhifedd gartref.

O ran asesu gan ddefnyddio'r FfLlRh, mae'r ysgol wedi creu system ddysgwr-gyfeillgar sy'n defnyddio lliwiau'r enfys i gynrychioli lefelau er mwyn asesu datblygiad. Wrth iddynt ddatblygu mae'r dysgwyr yn 'dringo'r enfys' gan alluogi'r dysgwyr a'r athrawon i dracio cynnydd. O ganlyniad i'r dull hwn mae'r dysgwyr yn gallu defnyddio'r fframwaith yn hyderus ac maen nhw'n ymwybodol o'u lle oddi arno gan gynnwys yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae'r ysgol yn trefnu cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr trwy ymyraethau fel sesiwn ddarllen gyda'r Clwb Darllen Cŵl a Merched Medrus. Mae athrawon llythrennedd a rhifedd hefyd wedi'u penodi er mwyn gweithio gyda'r dysgwyr y mae angen cymorth arnynt gyda sgiliau rhesymu, rhif a darllen. Drwy wneud hyn, mae'r ysgol wedi gweld cynnydd mewn sgiliau ymhlith unigolion. Mae'r athrawon yn tracio cynnydd y dysgwyr hyn sy'n derbyn cymorth dros gyfnod o saith wythnos.

Er mwyn cefnogi datblygiad ymhellach, mae gan bob dysgwr iPad, a chrëwyd cwrs iTunes U ar gyfer pob blwyddyn sy'n cynnwys adnoddau y gellir eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r iPad hefyd yn cael ei ddefnyddio gan bob dysgwr er mwyn gosod targedau rhifedd a llythrennedd ar gyfer eu hunain.

Wrth drafod y ffordd ymlaen dywedodd Ffion:

'Camau nesaf yr ysgol fydd parhau i fonitro cynnydd disgyblion yn llinynnau gwahanol y fframwaith.'

Bydd yr ysgol yn gwneud hynny drwy ddefnyddio ei system asesu, sydd ar ffurf daenlen Excel. Mae'r holl adrannau'n defnyddio'r system i gofnodi pob dysgwr o ran blwyddyn ac mae'r cydlynwyr a'r Pennaeth Cynorthwyol yn ei monitro i ganfod unrhyw feysydd sydd i'w gwella cyn cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd hynny.

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG28407